Version 1.0

# Cymorth Prosiect Garddwriaethol y Fro

Galwad am Geisiadau

## 1. Crynodeb

Mae Bwyd y Fro yn gweithio i gryfhau'r system fwyd leol ym Mro Morgannwg trwy gefnogi rhwydwaith cydweithredol o dyfwyr garddwriaethol lleol. Trwy raglen o weithdai wedi'u hwyluso a gweithgareddau meithrin gallu a gyflwynir gan Cyswllt Ffermio fel rhan o'u rhaglen Agrisgôp, mae tyfwyr yn archwilio dulliau cydweithredol o gynhyrchu, marchnata, dosbarthu a datblygu busnes.

Er mwyn adeiladu ar y momentwm hwn, rydym yn chwilio am gontractwr i helpu i drosi'r trafodaethau hyn yn gamau ymarferol. Bydd y contractwr llwyddiannus yn cydweithio'n agos â thyfwyr sy'n cymryd rhan yn rhaglen Agrisgôp i gydlynu a hwyluso’r gwaith o ddatblygu llwybrau cydweithredol i'r farchnad, gwaith hyrwyddo ar y cyd a chyfleoedd eraill ar gyfer cydweithio. Bydd cymorth technegol arbenigol sy'n ymwneud â datblygu'r farchnad, cynllunio busnes a hyfywedd masnachol ar gael trwy Cywain a Lantra drwy gydol y contract. Disgwylir i'r contractwr weithio ochr yn ochr â'r sefydliadau hyn i wneud y mwyaf o fudd y cymorth hwn i’r tyfwyr sy'n cymryd rhan ac osgoi dyblygu darpariaeth bresennol.

Yn ogystal, bydd y contractwr yn ymgysylltu'n ehangach â thyfwyr garddwriaethol ledled Bro Morgannwg i archwilio cyfleoedd ar gyfer isadeiledd, offer neu gyfleusterau a rennir a allai gryfhau effeithlonrwydd, gwydnwch a hyfywedd masnachol cynhyrchu llysiau lleol yn y tymor hir. Bydd mabwysiadu'r persbectif ehangach hwn yn helpu i sicrhau bod unrhyw gynigion yn cael eu llywio gan anghenion y gymuned tyfwyr ehangach, eu bod yn cyflawni graddfa ddigonol i fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy, yn osgoi dyblygu buddsoddiad, ac yn sicrhau'r budd mwyaf posibl ar y cyd o ran y cyllid sydd ar gael.

Disgwylir i'r contractwr llwyddiannus gyflawni yn erbyn rhaglen waith ddiffiniedig ac allbynnau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, dylid ymdrin â'r prosiect fel proses ailadroddus a chydweithredol, gyda gweithgareddau'n esblygu mewn ymateb i'r anghenion, y dyheadau a'r cyfleoedd a nodwyd gan dyfwyr lleol trwy ymgysylltu parhaus. Bydd y dull llwyddiannus yn cyfuno darpariaeth ac atebolrwydd clir â digon o hyblygrwydd i ymateb i flaenoriaethau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg wrth i'r rhwydwaith ddatblygu.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion neu endidau fel ei gilydd. Gan gydnabod y gellir dod o hyd i'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y comisiwn hwn ar draws ystod o sectorau a chefndiroedd proffesiynol, bydd cynigion cydweithredol yn cael eu hystyried lle maent yn darparu gwerth ychwanegol clir ac nad ydynt yn peryglu cyflawni prosiectau'n effeithiol.

## 2. Prif Dasgau a Chyfrifoldebau

### i. Llwybrau i'r Farchnad

- Gyda chymorth technegol arbenigol a ddarperir gan Cywain a Lantra, gweithio mewn cydweithrediad agos â Grŵp Agrisgop i nodi, asesu a datblygu cyfleoedd hyfyw ar gyfer gwerthu, marchnata a llwybrau i'r farchnad ar y cyd ac osgoi dyblygu.
- Ymgymryd ag ymchwil a dadansoddiad o’r farchnad i nodi cyfleoedd yn y farchnad leol, rhwystrau i gydweithio a chyfleoedd ar gyfer cynllunio cnydau ar y cyd a chynhyrchu cydlynol.

- Gweithio ochr yn ochr â Cywain a Lantra i gefnogi tyfwyr i asesu hyfywedd masnachol gwahanol farchnadoedd, cnydau a modelau masnachu cydweithredol.
- Ymchwilio i drefniadau llywodraethu, cyfreithiol a gweithredol priodol i gefnogi masnachu cydweithredol lle bo angen, a chynghori arnynt.
- Ymgysylltu â phrynwyr posibl a marchnadoedd ledled y rhanbarth, a chefnogi tyfwyr i archwilio a phrofi cyfleoedd masnachu cydweithredol.
- Cefnogi tyfwyr i ddeall gofynion prynwyr a chydlynu'r cyflenwad lle bo'n briodol.
- Darparu cefnogaeth gydlynu a gweinyddol i alluogi gwneud penderfyniadau a gweithredu ar y cyd.

### i. Gwelededd bwyd lleol cryfach

- Datblygu cynigion ar gyfer brandio, gweithgareddau marchnata ac asedau hyrwyddo a rennir, megis arwyddion stondinau marchnad, brandio, baneri, ffotograffiaeth, fideograffeg a chynnwys digidol.
- Cysylltu â phartneriaid Bwyd y Fro ynghylch defnyddio cronfeydd prosiect a throsoledd cyllid ychwanegol i gefnogi gweithgareddau ac asedau marchnata y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod deunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog lle bo angen.
- Comisiynu a rheoli dylunwyr, gweithwyr proffesiynol marchnata neu gyflenwyr allanol eraill yn ôl yr angen, gan sicrhau bod yr holl weithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau caffael Cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys cael dyfynbrisiau lle bo angen a chodi ceisiadau am archebion prynu.

### i. Datblygu Isadeiledd a Rennir

- Hwyluso trafodaethau gyda thyfwyr i nodi blaenoriaethau ar gyfer isadeiledd, offer neu gyfleusterau a rennir; a allai wella effeithlonrwydd, gwydnwch a hyfywedd masnachol.
- Ystyried anghenion a chyfleoedd yn y gymuned tyfwyr ehangach ledled Bro Morgannwg, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyfranogwyr yn rhaglen Agrisgôp.
- Asesu dichonoldeb gwahanol fodelau ar gyfer perchnogaeth, prydlesu, llywodraethu, rheoli a chynnal a chadw asedau neu wasanaethau a rennir.
- Cefnogi tyfwyr i nodi dulliau dewisol a chytuno arnynt, gan gydnabod y gall cyfleoedd a blaenoriaethau esblygu drwy gydol y prosiect.
- Datblygu a sefydlu trefniadau, polisïau, gweithdrefnau a chytundebau llywodraethu priodol i roi modd i asedau neu wasanaethau gael eu defnyddio neu eu rheoli'n effeithiol ar y cyd, lle bo angen.
- Sicrhau bod gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a gweithredol perthnasol, gan gynnwys ystyriaethau iechyd a diogelwch, yswiriant, rheoli risg, hyfforddiant a chydymffurfedd, yn cael eu nodi ac y rhoddir sylw iddynt.
- Gweithio gyda Bwyd y Fro a thyfwyr i ddatblygu argymhellion ar gyfer defnyddio hyd at £35,000 o gyllid cyfalaf, wedi'i lywio gan flaenoriaethau tyfwyr a dangos budd cyfunol clir. Gall buddsoddiadau posibl gynnwys peiriannau, offer, storio, prosesu, dosbarthu neu asedau eraill sy'n dangos budd cyfunol clir.

- Yn amodol ar gymeradwyaeth gan bartneriaid Bwyd y Fro, cefnogi manyleb, caffael a gweithredu buddsoddiadau cyfalaf y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod yr holl weithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau caffael Cyngor Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys cael dyfynbrisiau lle bo angen a chodi ceisiadau am archebion prynu.
- Cynhyrchu argymhellion ar gyfer llywodraethu, rheolaeth, cynaliadwyedd ariannol a datblygiad hirdymor unrhyw fodel isadeiledd a rennir a gaiff ei sefydlu drwy'r prosiect.

### i. Monitro ac Adrodd

- Cynhyrchu diweddariadau cryno ar gynnydd drwy gydol cyfnod y contract.
- Paratoi adroddiad terfynol yn crynhoi gweithgareddau, cyflawniadau, heriau, argymhellion a'r camau nesaf.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid Bwyd y Fro i rannu gwybodaeth a phrofiadau sy'n gysylltiedig â datblygu'r gadwyn gyflenwi.

## 1. Cyflawniadau Disgwyliedig

Disgwylir i'r contractwr llwyddiannus gyflawni:

- **Ymgysylltu wyneb yn wyneb** yn rheolaidd â'r tyfwyr sy'n cymryd rhan drwy gydol cyfnod y contract, trwy'r grŵp Agrisgôp ac yn ehangach
- **Cyfarfodydd cynnydd misol** gyda Bwyd y Fro.
- **Gwerthusiad wedi'i ddogfennu** o gyfleoedd a nodwyd ar gyfer gwerthiannau cydweithredol/ar y cyd a llwybrau i'r farchnad.
- **Cyfres o asedau a deunyddiau marchnata a rennir** e.e. arwyddion ar gyfer stondinau marchnad, logo, baneri, cynnwys ffotograffig/fideo a rennir, ac ati.
- Adroddiad ar anghenion a nodwyd ar gyfer isadeiledd ac argymhellion a rennir, i gynnwys:
    - **Cynnig gwariant cyfalaf** ar gyfer cyllideb ychwanegol y prosiect – i gynnwys isadeiledd neu ddeunyddiau marchnata a rennir.
    - **Cynllun isadeiledd a rennir sy'n gwbl weithredol** (neu, os nad yw'r amserlenni'n caniatáu, becyn sy'n barod i'w weithredu), i gynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau gweithredol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu, a fframwaith yswiriant a rheoli risg, model llywodraethu a argymhellir, a chynllun cynnal a chadw ar gyfer y dyfodol.
- **Adroddiad prosiect terfynol** a dogfen drosglwyddo.

## 1. Sgiliau a Phrofiad Angenrheidiol

Hanfodol:

- Gwybodaeth am arddwriaeth, ffermio, systemau bwyd lleol, cadwyni cyflenwi bwyd a/neu fodelau busnes cydweithredol.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda thyfwyr, busnesau a rhanddeiliaid eraill.
- Profiad o gydlynu prosiectau, hwyluso ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Profiad o ddatblygu cynlluniau gweithredu, argymhellion ac adroddiadau ysgrifenedig.
- Gallu profedig i gyflawni prosiectau o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt.
- Y gallu i weithio'n annibynnol, rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chymryd y blaen.

- Dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau y mae tyfwyr bach a busnesau amaethyddol yn eu hwynebu.
- Trwydded yrru lawn o'r DU a mynediad at gerbyd at ddefnydd busnes, gyda'r gallu i deithio ledled Bro Morgannwg.

Dymunol:

- Profiad o gefnogi grwpiau cynhyrchwyr, cwmnïau cydweithredol, mentrau cymunedol neu rwydweithiau busnes cydweithredol.
- Gwybodaeth am sector bwyd Bro Morgannwg a system fwyd ehangach Cymru.
- Profiad o ddatblygu llwybrau i'r farchnad, cadwyni cyflenwi neu rwydweithiau dosbarthu ar gyfer cynhyrchwyr bwyd.
- Profiad o sefydlu neu reoli isadeiledd a rennir, cynlluniau rhannu offer neu gylchoedd peiriannau.
- Cyfarwydd â pheiriannau ac offer amaethyddol neu arddwriaethol.

## 1. Sut i wneud cais

Anfonwch gynnig byr (uchafswm o 2 dudalen) at louise.denham@wales.nhs.uk erbyn **11 Medi 2026**, gan gynnwys y manylion canlynol:

- Manylion cyswllt
- Cynnig byr yn amlinellu sut rydych chi'n bodloni'r sgiliau a'r profiad y gofynnir amdanynt (gweler y meini prawf asesu isod)
- Amserlen a dyraniad amser arfaethedig.
- Crynodeb o'r gyllideb, yn manylu ar y canlynol: pwy fyddai'n cyflawni'r gwaith ac unrhyw gostau ychwanegol a ragwelir e.e. treuliau, a'r cyfanswm (gan gynnwys TAW lle bo'n berthnasol).
- Datganiad o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl e.e. unrhyw ymwneud uniongyrchol â busnesau garddwriaethol yn y Fro neu sefydliadau a allai elwa o weithgareddau prosiect neu fuddsoddiad cyfalaf sy'n deillio o'r comisiwn hwn.

Bydd pob cais yn cael ei adolygu gan ein panel, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwybod erbyn **18 Medi 2026.**

## 1. Trefniadau contract a chyllideb

**Cyllideb:** Hyd at **£11,000** (*sylwch, oherwydd cyllid grant, mai cyllideb sefydlog yw hon)* ***gan gynnwys treuliau***

**Amserlen:** Bydd y contract yn dechrau ym mis Medi 2026; rhaid i'r holl dargedau i'w cwblhau ddod i ben erbyn *31 Mawrth 2027 (sylwch fod yr amserlenni hyn wedi'u gosod oherwydd gofynion grant)*

**Cyllideb prosiect ychwanegol:** *Bydd gennych hefyd fynediad at refeniw pellach a chyfalaf i dalu ffioedd ymgynghori allanol y cytunwyd arnynt (e.e. gwaith dylunio proffesiynol, arbenigedd mewn meysydd fel cylchoedd peiriannau ac ati), lle bo'n briodol, a chostau cyfalaf ar gyfer isadeiledd a rennir a/neu ddeunyddiau hyrwyddo a rennir.*

**Lleoliad:** Gweithio gartref gyda theithio rheolaidd disgwyliedig i Fro Morgannwg i gyfarfod â thyfwyr a rhanddeiliaid allweddol

**Yn adrodd i:** Gydlynydd Bwyd y Fro

*Noder na fydd gliniaduron ac offer TG arall yn cael eu darparu, a bydd disgwyl i'r ymgeisydd ildio'r holl ddogfennaeth ac asedau a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect hwn ar ddiwedd cyfnod y contract.*

Gan fod y contract yn cael ei weinyddu drwy Gyngor Bro Morganwg ar ran Food Vale, rhaid i'r contractwr llwyddiannus:

- Cydymffurfio â phrosesau a gofynion caffael a chontractio perthnasol y Cyngor.
- Glynu wrth ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.
- Dal yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, Atebolrwydd Cyflogwr (os yn berthnasol) ac Indemniad Proffesiynol dilys. Trothwy yswiriant gofynnol cyfredol y Cyngor yw £1m.

## 2. Meini Prawf Asesu

### O fewn y gyllideb (pasio/methu)

Perthnasedd ac ansawdd y dull arfaethedig (35%)

- Dealltwriaeth glir o'r briff a'r cyd-destun
- Hyfywedd ac addasrwydd y fethodoleg arfaethedig
- Priodoldeb y dull arfaethedig
- Amserlen realistig

Profiad ac arbenigedd (35%)

- Arddangosiad o'r sgiliau a'r profiad gofynnol.

Gwerth am arian (20%)

- Cyllidebu a defnyddio adnoddau'n realistig
- Eglurder ynghylch rolau, ac unrhyw gyfraniadau mewn nwyddau

Dull ymgysylltu a chydweithio (10%)

- Parodrwydd i weithio'n addasol gyda phartneriaid y rhaglen

## 3. Ynglŷn â Bwyd y Fro

Partneriaeth bwyd cynaliadwy Bro Morgannwg yw Bwyd y Fro, sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau i feithrin system fwyd ffyniannus, iach a chynaliadwy yn y Fro.

Rydym wedi'n lletya o fewn Tîm Iechyd y Cyhoedd BIP Caerdydd a'r Fro, ac mae ein Grŵp Llywio traws-sector yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, FareShare Cymru, Tyddynwyr Morgannwg, Big Fresh Catering, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cywain (Mentera).

Rydym hefyd yn rhan o nifer gynyddol o bartneriaethau bwyd o dan raglen Mannau Bwyd Cynaliadwy (SFP) ledled y DU sy'n defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan systemau ac sy'n seiliedig ar leoedd i wneud cynnydd yn erbyn y 6 mater allweddol yn y fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (SFP).

Mae gwaith y bartneriaeth ledled Bro Morgannwg yn cael ei arwain gan Strategaeth Bwyd y Fro 2025-2030. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at y Canlyniad Dymunol canlynol:

- *Mae mwy o fusnesau lleol yn tyfu, yn cynhyrchu, yn gwerthu ac yn gweini bwyd iach a chynaliadwy yn y Fro, ac mae'r busnesau hyn yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.*
- *Mae mwy o fwyd yn cael ei gynhyrchu'n lleol gan fusnesau sy'n mabwysiadu arferion organig, agro-ecolegol, adfywiol a/neu sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.*

Yn fwy penodol, bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y camau gweithredu canlynol:

*13. Cefnogi prosiectau a darpar brosiectau garddwriaethol masnachol lleol presennol yn y Fro i gynyddu faint o lysiau a gynhyrchir a dod o hyd i lwybrau i'r farchnad, gan ystyried sut y gall gweithgareddau gyd-fynd â safonau presennol yn ogystal â systemau bwyd, gwastraff ac ynni eraill i wneud y mwyaf o'r effaith.*